# Gyrfaoedd mewn therapi deintyddol

Yn aelod pwysig i'r tîm deintyddol, mae therapyddion deintyddol yn gallu cynnal nifer sylweddol o ddeintyddiaeth arferol y gall deintydd ei wneud. Mae'r yrfa yn amrywiol ac yn werth chweil gyda'r cyfle i weithio mewn nifer o wahanol leoliadau.

## Beth mae therapyddion deintyddol yn ei wneud?

**Mae rhai o’u dyletswyddau yn cynnwys:**

- fferru dannedd a gosod llenwadau
- glanhau dannedd (graddfa a sglein)
- glanhau dwfn o dan y deintgig
- defnyddio meddyginiaeth fflworid uchel
- gosod selwyr hollt ar ddannedd
- tynnu dannedd baban
- triniaethau nerfol ar ddannedd babanod
- gwynnu dannedd*
- tynnu pwythau o glwyf*
- darparu tawelyddion i gleifion.*

**Cyflawnir y dyletswyddau hyn ar gyfarwyddyd deintydd**

## Ble mae therapyddion deintyddol yn gweithio?

Mae therapyddion deintyddol yn gweithio ar draws lleoliadau amrywiol:

- practis deintyddol cyffredinol
- clinigau cymunedol
- ysbytai
- carchardai
- addysg – mae rhai therapyddion deintyddol hyd yn oed yn penderfynu mynd ymlaen i addysgu'r genhedlaeth nesaf o therapyddion.

## Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i fod yn therapydd deintyddol da?

- bydd angen i chi feddu ar sgiliau cyfathrebu effeithiol, bod yn gyfeillgar a gallu esbonio pethau mewn ffordd y gall pobl ei deall
- fel rôl ymarferol bydd angen i chi fod â deheurwydd llaw dda i ganiatáu i chi ddefnyddio offer a chyflawni triniaethau fel llenwadau
- mae sgiliau trefniadol yn allweddol – mae rhestr brysur o gleifion yn golygu bod angen i chi fod yn drefnus, gyda'r gallu i gynllunio a blaenoriaethu tasgau
- mae angen i chi allu gweithio'n dda fel rhan o dîm.

## Sut mae dod yn therapydd deintyddol?

I ddod yn therapydd deintyddol cofrestredig gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) bydd angen i chi gyflawni BSc mewn therapi deintyddol a hylendid deintyddol, a gynigir trwy gwrs tair blynedd amser llawn ym Mhrifysgol Caerdydd. Gan gyfuno cymysgedd gwych o leoliadau clinigol â modiwlau sy’n cynnwys clefydau’r geg a radiograffeg ddeintyddol, mae astudio’r radd yn rhoi’r sgiliau, y wybodaeth a’r profiad i chi gyflawni’r rôl.

**Eisiau darganfod mwy?**

**Tregyrfa:** https://careersville.heiw.wales/cy

**Gyrfaoedd GIG Cymru:** http://www.gyrfaoeddgigcymru.com/